**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

**National Assembly for Wales**
Petitions Committee

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

25 Mai 2017

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-17-17 Papur 11 Paper 11

Annwyl John

**Deisebau sy'n cael eu trafod gan y Pwyllgor Deisebau ar hyn o bryd**

Rwy'n awyddus ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i bobl a sefydliadau sy'n cyflwyno deisebau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Yn yr ysbryd hwn, a dyhead i gefnogi cydweithio rhwng pwyllgorau'r Cynulliad, rwy'n ysgrifennu atoch i rannu gwybodaeth am y deisebau rydym yn eu trafod ar hyn o bryd sy'n ymwneud â phynciau o fewn cylch gwaith eich Pwyllgor.

Mae'r rhestr gyfredol i'w gweld yn atodiad i'r llythyr hwn.

Os yw unrhyw un o'r deisebau yn berthnasol i'ch rhaglen waith gyfredol, bydd o gymorth i ni yn ein trafodaethau pe allwch chi, neu'ch tîm clercio, roi gwybod i ni. Byddwn yn fwy na bodlon rhoi rhagor o wybodaeth i chi am unrhyw un o'r deisebau hyn.

Yn gywir

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPetitions@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565



Mike Hedges AC
Cadeirydd

**Atodiad**

| | |
|---|---|
| P-04-519 | Diddymu Taliadau Comisiwn wrth Werthu Cartrefi mewn Parciau |
| P-05-711 | Sicrhau bod Anghenion Pobl Anabl am Addasiadau i Dai yn cael eu Diwallu'n Ddigonol |
| P-05-723 | Sefydlu System Bleidleisio Cynrychiolaeth Gyfrannol ar gyfer Etholiadau Cynghorau Lleol Cymru. |
| P-05-726 | Rhoi Rhyddhad Ardrethi i Awdurdodau Lleol ar gyfer Cyfleusterau Hamdden a Diwylliannol |
| P-05-734 | Gwahardd Codi Ffioedd Asiant Gosod ar Denantiaid |
| P-05-742 | Peidiwch â gadael i Forsythia gau! |
| P-05-761 | Mynnu cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Autism Spectrum Connections Cymru |